

Gweithio gyda phrosesau naturiol i leihau'r perygl o lifogydd yn 2024

Y sylfaen dystiolaeth ar gyfer gweithio gyda phrosesau naturiol i leihau'r perygl o lifogydd

Mae'r dudalen hon yn cynnwys yr adroddiad ymchwil a'r adolygiad llenyddiaeth ar gyfer 'Cyfeirlyfr tystiolaeth gweithio gyda phrosesau naturiol' 2024.

Mae trosolwg o'r dystiolaeth ar gyfer pob mesur ar gael ar y [dudalen crynodebau](#).

Dogfennau

[Adroddiad ymchwil](#) – wedi'i ysgrifennu ar gyfer y rhai sydd eisiau trosolwg.

[Adolygiad llenyddiaeth](#) – yn rhoi cynnwys manwl â chyfeiriadau i'r rhai sydd eisiau mwy o wybodaeth am astudiaethau penodol.

[Crynodebau \(tudalen ar wahân\)](#) – yn cynnwys canllawiau cyflym ar gyfer pob un o'r mesurau a gwmpesir yn y cyfeiriadur.

Crynodeb

Nod 'gweithio gyda phrosesau naturiol' yw gwarchod, adfer ac efelychu swyddogaethau naturiol dalgylchoedd, gorlifdiroedd, afonydd a'r arfordir i leihau'r perygl o lifogydd. Cyfeirir ato hefyd fel 'rheoli llifogydd yn naturiol'.

Fe gyhoeddodd ni ['Cyfeiriadur tystiolaeth gweithio gyda phrosesau naturiol' yn 2017](#).

Mae'r diweddariad hwn yn dwyn ynghyd dystiolaeth o astudiaethau rheoli llifogydd yn naturiol a gyhoeddwyd ar ôl 2017. Mae'n dweud wrthym lle mae gwybodaeth wedi gwella neu newid ers cyhoeddi'r cyfeiriadur tystiolaeth gwreiddiol.

Dull gweithredu

Cyn belled ag y bo modd, cadwyd yr un cwmpas a strwythur â'r cyfeiriadur tystiolaeth gwreiddiol. Gwnaethpwyd rhai newidiadau i adlewyrchu'r datblygiadau yn y wyddoniaeth a'r arfer o weithio gyda phrosesau naturiol.

Mae cwmpas y diweddariad hwn yn cynnwys:

- llenyddiaeth academaidd a llwyd

- llenyddiaeth o 2017 i 2023
- astudiaethau sy'n canolbwyntio ar bob pwynt o gylch oes y prosiect (e.e. modelu a dylunio hyd at weithredu, effeithiolrwydd a monitro)
- astudiaethau rhyngwladol lle mae'r cyd-destun hinsoddol yn debyg i'r DU

Roedd yr adolygiad hwn yn gyson â'r dull a fabwysiadwyd yn rhifyn 2017 a cheisiodd gydbwysu chwiliad eang o'r llenyddiaeth â'r defnydd o wybodaeth arbenigol. Er efallai nad yw'r chwiliad yn gwbl gyflawn, mae'n adlewyrchu'r sylfaen dystiolaeth sydd ar gael, sy'n fwy datblygedig mewn rhai meysydd nag eraill. Mae'n bosibl bod rhywfaint o waith ymchwil wedi'i gollu oherwydd natur y broses chwilio a chyffredinrwydd tystiolaeth ategol nas cyhoeddwyd.

Mae'r adroddiad ymchwil wedi'i ddiweddarau yn grynodedb o'r canfyddiadau gwreiddiol o 2017, tystiolaeth newydd, ein hyder yn y dystiolaeth, a'r bylchau ymchwil sy'n weddill. Mae'r adroddiad yn cyfeirio darllenwyr at y rhannau perthnasol o'r adolygiad llenyddiaeth i gael gwybodaeth fanylach.

Mae'r mesurau a gwmpesir fel a ganlyn:

- adfer afonydd
- adfer gorlifdiroedd/gwlyptiroedd
- rhwystrau mandyllog
- afancod
- ardaloedd storio all-lein
- coetir dalgylchoedd
- coetir ar draws llethrau
- coetir ar orlifdiroedd
- coetir torlannol
- rheoli pridd a thir
- rheoli draeniad rhagnentydd
- rheoli llwybr dŵr ffo
- rheoli morfeydd heli a gwastadeddau llaid
- adfer traethau
- rheoli twyni tywod
- riffau
- llystyfiant dyfrol tanddwr a lludwymon

Ychwanegiad allweddol at gyfeiriadur tystiolaeth 2024 yw cynnwys afancod, riffau a llystyfiant dyfrol tanddwr fel mesurau ychwanegol gweithio gyda phrosesau naturiol. Mae hyn oherwydd y cynnydd mewn tystiolaeth yng nghyd-destun y DU ers 2017.

Mae pennod newydd ar fesurau rheoli llifogydd yn naturiol "trawsbynciol" yn ceisio cynnig crynodeb o'r dystiolaeth lle mae mathau lluosog o reoli llifogydd yn naturiol wedi'u gweithredu mewn un dalgylch.

Nid yw'r elfennau canlynol o fersiwn 2017 wedi'u diweddarau:

- canllawiau ar fonitro prosiectau
- gweithio gyda phrosesau naturiol – defnyddio'r sylfaen dystiolaeth i gyflwyno'r achos dros reoli llifogydd yn naturiol
- mapio'r posibilrwydd ar gyfer gweithio gyda phrosesau naturiol
- Atodiad 1. Defnyddio'r dystiolaeth am y perygl o lifogydd er mwyn cyflwyno'r achos dros weithio gyda phrosesau naturiol – matrices y perygl o lifogydd
- astudiaethau achos

Canfyddiadau

Canfuom y canlynol:

- cytundeb cyffredinol mewn llenyddiaeth newydd y gall rheoli llifogydd yn naturiol leihau'r perygl o lifogydd a bod iddo fanteision ehangach
- tystiolaeth newydd ar gyfer pob mesur, ond mae'r swm yn amrywio
- mae ein dealltwriaeth eang o reoli llifogydd yn naturiol wedi gwella ond erys bylchau penodol

Gwybodaeth am y prosiect

Rheolwr y prosiect: Daniel Hine

Cafodd y prosiect hwn ei gomisiynu gan Gyfarwyddiaeth Rheoli'r Perygl o Lifogydd ac Arfordiroedd Asiantaeth yr Amgylchedd, fel rhan o'r Rhaglen Ymchwil a Datblygu ar y cyd ar gyfer Rheoli'r Perygl o Lifogydd ac Erydu Arfordirol.

Metadata'r prosiect

Categori

Rheoli amgylcheddol a chynaliadwyedd

Pynciau

Newid hinsawdd; arfordir; dylunio ac adeiladu; manteision gwasanaethau ecosystemau; hydroleg; cyfalaf naturiol; rheoli llifogydd yn naturiol; seilwaith gwydn; cynaliadwyedd; deall prosesau ffisegol

Cod y prosiect:

FRS21232

Dyddiad cwblhau:

Rhagfyr 2024